# COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANILAR
a gynhaliwyd ar y 1af o Medi 2015
am 8.00y.h.

**PRESENNOL:- Cynghorwyr:- Ann Tudor (Cadeirydd), Ada Evans, Meirion Davies, Meic Francis, Dylan Edwards a Dewi Rattray.**

**YMDDIHEURIADAU: Richard Davies, Rowland Jones, Caredig Jones a John Davies**

**ABSENOLDEBAU:** Nid oedd unrhyw Absenoldebau.

Dachraeodd y cyfarfod am 8.00 o'r gloch. Chroesawyd yr aelodau gan y Cadeirydd Ann Tudor.

**15/862**
Darllenwyd cofnodion cyfarfod Miss Mehefin gan y Clerc a phasiwyd eu bod yn gywir. Cynigiwyd gan y Cyng.Meic Francis ac fe eiliwyd gan y Cyng. Ada Evans.

**15/863**
**MATERION YN CODI**

1. Fe ddiolchodd y Cyng.Ann Tudor i bawb yn y gymuned am y help a gwaith called wrth dorri'r fynwent.
2. Mae dyddiad newydd ar gyfer hyfforddiant y Defibrillators; Nos Fawrth 8fed o Fedi am 7.30y.h. Cyn belled, mae yna 14 enw wedi cadarnhau am yr hyfforddiant yn barod.
3. Ysgrifennodd y Clerc at y Swyddfa Bost unwaith eto ynglŷn â Blwch Post yn y pentref. Hyd yn hyn, nid oes ymateb wedi eu derbyn, sydd yn siomedig iawn.
4. Rydym dal yn aros am ymateb ynglŷn â grant ar gyfer trwsio wal y fynwent ar ôl derbyn adroddiad 'Quinquennial Inspection 2015' yr Eglwys.
5. Rydym yn aros i'r pwyllgor datblygu cwrdd i drafod y posibilrwydd o ddefnyddio toiledau yn yr ystafell newydd yn yr Hen Ysgol ar gyfer toiledau i'r cyhoedd. Phasiwyd i'r clerc ysgrifennu at y pwyllgor.
6. Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Chris Brown gynt or Falcon Inn Llanilar,i rhoi diolch am eu rhodd hael o £350 ar gyfer y gymuned.
7. Nid oes ymateb wedi derbyn o'r Cyngor Sir ynglŷn â'r 'Grids' ar ffordd Trawscoed.

**15/864**
**LLYTHYRON**

1. Llythyr oddiwrth Yr Eglwys yng Nghymru ynglŷn â Glebland. Maent wedi rhoi gwerth ar gae'r Egwlys. Phasiwyd i'r clerc ysgrifennu at Alan Glenville i ofyn am gyfarfod i drafod hyn yn bellach. Hefyd ofynnwyd i gysylltu â'r adran cynllunio yn y cyngor, er mwyn weld os fydd yn bosib i rywun gynghori'n bellach ar ddefnydd y tir.
2. Cais o Bwyllgor y Carnifal, i ofyn pe gallant gael ganiatâd i roi mainc yn y fynwent. Maent yn gobeithio archebu'r fainc gyda rhan o'r arian a godir yn ystod y Carnifal y flwyddyn yma. Roedd y cynghorwyr yn hapus i roi caniatâd, ond gan fod mainc yn ardal waelod y fynwent yn barod, gofynnwyd fod y Cyngor yn penderfynu ble yn union bydd orau yw lleoli.
3. Manylion cyswllt oddiwrth Mark Williams AS/MP. Cytunwyd i arddangos y rhain ar hysbysfwrdd yr Hen Ysgol ac Sgwar y Pentref.Bulletin Ail-gylchu a wastraff.
4. Bulletin Ail-gylchu a wastraff.
5. Holiadur oddiwrth y Cyngor ar y pwnc Ageing Well.
6. Manylion noson hyfforddiant ar gynllunio, sy'n cael eu cynnal ar nos Llun 7fed o Fedi am 5.30yh.

7. Fe wnaeth y Cyng. Meic Francis sôn am gynnwys nifer o negeseuon e-bost a dderbyniwyd oddi wrth Un Llais Cymru, megis..Datganiad Adolygiad Gofal Preswyl, The future of parks and their positive impact on wellbeing, Llythyr gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus, Protecting Community Assets, Grant Cystadleuol 2016 Cyfoeth Naturiol Cymru a.y.b.
8. Llythr oddiwrth aelod o'r cyhoedd yn dod a chŵyn at sylw'r cyngor; 'Noise nuisance from Bird Scarer'. Ar ôl edrych yn drylwyr dros y rheolau ynglŷn â defnyddio eitemau o'r fath, roedd y Cyngor yn fodlon bod y 'bird scarer' yma yn cael ei ddefnyddio o fewn y canllawiau.

**15/865**
**ARIANNOL**

1. Infois ar gyfer 'Night Street Lighting Costs'; £750.90 + VAT. Cynigwyd i'w daly gan y Cyng.Meic Francis ac fe eiliwyd gan y Cyng.Dewi Rattray.
2. Cyflog y Clerc ar gyfer Miss Awst; £113.47. Cynigiwyd i'w dalu gan y Cyng. Meic Francis ac eiliwyd gan y Cyng. Dewi Rattray.
3. Cyflog y Clerc ar gyfer Miss Medi; £113.27. Cynigiwyd i'w dalu gan y Cyng. Meic Francis ac eiliwyd gan y Cyng. Dewi Rattray.

**15/866**
**CYNLLUNIO**

Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau newydd.

**15/867**
**UNRHYW FATER ARALL**

1. Tynnwyd sylw gan y Cyng.Ada Evans at draen wedi eu blocio wrth ymyl Gwel y Môr. Mae dŵr yn casglu yna. Phasiwyd i'r Clerc cysylltu â'r adran Priffyrdd i godi'r pwnc yma.
2. Mi godwyd cwestiwn gan y Cyng.Ann Tudor, 'Beth sy'n digwydd i'r rhewl B4340 (Trawscoed)?' Mae'r B4340 yn parau dros bont Trawscoed a cwrdd a'r B4575 ar y cyffordd. Ond, mae llinellau 'Giveway' wedi eu paentio wrth droi ar y bont, felly mae'n edrych fel petai'r B4340 yn diflannu mewn i'r rhewl ddi-ddosbarth sy'n rhedeg ymlaen tuag at Ddolfor yn lle. Phasiwyd i'r clerc i ysgrifennu at adran priffyrdd y Cyngor Sir i godi'r cwestiwn yma.

Gorffennwyd y cyfarfod am 9.00yh